

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Tref Mawrth 1af 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Carol Hayes, Ian Wyn Jones, Aled Griffith. Richard Williams, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr, Bethan Rees Jones, Malcolm Humphreys, Jason Humphreys, Dr Melfyn Edwrads, Stuart Nashir-Hallard

291.3.22

Ymddiheuriadau :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd)

292.3.22

Cyflwyniad gan Andrew Basford a John Meirion Davies - Cyfoeth Naturiol Cymru - am berygl llifogydd Porthmadog.

Yn absenoldeb y Cadeirydd Llywelyn Rhys cytunodd yr Is-Gadeirydd Cyng Selwyn Griffiths i gadeirio'r cyfarfod. Dechreuodd drwy groesawu'r ddau ŵr gwadd - Andrew Basford a John Meirion Davies - Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynghorwyr i'r cyfarfod. Eglurodd fel yr oedd y Cyngor wedi ceisio sawl tro i gael cyfarfod gyda'r ddau ond fod amgylchiadau megis storm ar un achlysur a phroblemau technegol ar achlysur arall wedi rhwystro iddynt roi eu cyflwyniad Powerpoint i'r Cynghorwyr. Roeddent eisoes wedi gyrru i'r Clerc gopi o'r cyflwyniad ac mae'r Cynghorwyr i gyd wedi ei dderbyn ar lein cyn y cyfarfod arfaethedig ar 8.2.2022.

Dechreuwyd y cyflwyniad gydag ychydig eiriau gan John Meirion Davies yn egluro beth oedd eu rôl nhw yn y prosiect. Ymhlith ei brif bwyntiau dywedodd :-

- Eu bod yn gweithio i dîm Asset Performance – sydd yn rheoli sut mae nhw'n gwario ar eu asedau i reoli risg llifogydd.
- Fod ganddynt dimau gwahanol - yn dechnegwyr, peiriannwyr a modelwyr yn cadw trac ar yr adnoddau ym Mhorthmadog megis y Dorau Mawr, Llyn Bach, y Cob.
- Fod newid yn yr hinsawdd ac efo'r llanw yn rhoi pwysau ychwanegol ar asedau oherwydd fod lefelau'r dŵr yn codi a'i bod yn bwysig i adnabod y broblem yn gyntaf cyn trefnu unrhyw wariant.
- Fod y ddau yn gweithio i'r Tîm Prosiectau oedd yn rhedeg y Prosiect ac mai Andrew Basford oedd arweinydd y tîm.
- Ei bod yn bwysig rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd a'r cam cyntaf oedd y cyfarfod yma efo'r Cyngor Tref er mwyn i'r gymuned fod yn ymwybodol o beth sy'n digwydd.
- Fod angen ymgynghori efo pobl leol cyn gweithredu.

Trosoglwyddwyd yr awennau i Andrew Basford. Cyn mynd drwy'r cyflwyniad Powerpoint eglurodd fod y prosiect yn edrych ar y peryglon llifogydd a'r oblygiadau byr-dymor a hir-dymor. Dywedodd fod cydweithio gyda'r Cyngor Tref yn rhan hanfodol o'r broses ac roedd yn ddiolchgar iawn i gael dod i gyflwyno'r wybodaeth iddynt. Eglurodd fod y gymuned leol wedi darparu gwybodaeth gwerthfawr iawn iddynt wrth ymateb i'w llythyr yn gofyn am brofiadau personol o achosion o lifogydd diweddar yn yr ardal. Roedd y broses yn dibynnu ar dimau o arbenigwyr yn y maes yn ogystal â mewnbwn a chydweithrediad y cyhoedd. Pwysleisiodd fod y prosiect yn un oedd yn dibynnu ar rannu cyfrifoldeb a chyd-weithio rhwng asiantaethau megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Chyngor Gwynedd.

Aeth drwy'r 13 sleid gan egluro yn fanwl beth oedd eu cynnwys (Ceir copi o'r cyflwyniad ynghlwm) a dangoswyd lluniau dychrynlyd o'r llifogydd gafwyd yn yr ardal yn 2015 yn dilyn Storm Desmond.

Ar ddiwedd y cyflwyniad cafwyd mewnbwn gan rai o'r Cynghorwyr. Ymysg rhai o'u sylwadau / awgrymiadau clywyd fel :-

- Y byddai 2 giât newydd ar y dorau Mawr yn hwyluso gwagio dŵr o'r Traeth Mawr.
- Y byddai sicrhau fod y Dorau presennol yn gweithio'n iawn yn gwella'r sefyllfa.
- Bod y ffordd osgoi wedi gwaethygu'r sefyllfa ac na fu erioed y fath lifogydd ar y Traeth cyn y ffordd osgoi.
- Fod angen clirio silt o'r Glaslyn ac o'r Cyt i sicrhau fod y dŵr yn llifo ac yn gwagio.
- Y gellid cau ffordd y Cob, gosod melinau gwynt ar y Cob i bweru pwmp i wagio'r dŵr allan i'r môr.

Gorffenodd Andrew Basford drwy ddiolch i'r Cynghorwyr am eu sylwadau a'u cyfraniad gwerthfawr i'r broses ymgynghori. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn llythyru'r gymuned eto yn yr wythnosau nesaf a'r cam nesaf fydd cyfarfodydd cyhoeddus i gyflwyno'r wybodaeth i'r cyhoedd. Pwysleisiodd unwaith eto bwysigrwydd cynnwys y gymuned yn y trafodaethau ac yn y broses o wireddu'r cynllun hwn.

Diolchodd y Cyng Selwyn Griffiths iddynt am eu cyflwyniad ac am egluro'r sefyllfa yn drwyadl. Roedd yn falch iawn i glywed fod sefyllfa Porthmadog yn un oedd yn cael blaenoriaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

Marian Roberts (Clerc)
2.3.2022